**CYNGOR CAERDYDD**
**CARDIFF COUNCIL**

# CYNGOR: 17 MARWTH 2022

---

## CYNNIG CABINET

---

**CAERDYDD DDWYIEITHOG: STRATEGAETH 5 MLYNEDD Y GYMRAEG 2022-27 CYNGOR CAERDYDD**

**Rheswm dros yr Adroddiad hwn**

**1.** Nodi cynnwys Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-2027 **(Atodiad I)** yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac argymell i'r Cyngor llawn ei chymeradwyo.

**2.** Nodi cynnwys yr Adolygiad Annibynnol o Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017-2022 **(Atodiad V)**

**Cefndir**

**3.** Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau yn ymwneud â'r Gymraeg trwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015). Gellir gweld y Safonau ar dudalen mewnrwyd Caerdydd Ddwyieithog neu drwy ddilyn y ddolen hon.

**4.** Mae Safon 145 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu a chyhoeddi adolygiad o'i strategaeth 5 mlynedd hybu'r Gymraeg erbyn 31 Mawrth 2022. Cytunwyd ar y strategaeth Caerdydd Ddwyieithog gyntaf yn 2016 ac fe'i gweithredwyd rhwng 2017 a 2022. Mae'r strategaeth ddiwygiedig yn nodi sut y bydd y Cyngor yn parhau i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghaerdydd. Mae hefyd yn cynnwys targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ddinas yn unol â gofynion statudol a chamau gweithredu penodol eraill i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a chreu'r amodau i'r iaith ffynnu. Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 wedi'i haddasu i adlewyrchu'r tair thema a nodir yn *Cymraeg 2050*, strategaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae Safon y Gymraeg 145 yn datgan:

> **Rhaid i chi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) - (a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y**

**siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw, a (b) datganiad sy’n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid i chi adolygu’r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi’r strategaeth (neu ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).**

**5.** Dangosodd canlyniadau cyfrifiad 2011 fod nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd wedi mwy na dyblu dros gyfnod o 25 mlynedd a nododd fod 11.1% o boblogaeth y ddinas yn dweud eu bod yn siaradwyr Cymraeg. Rhagwelir y bydd canlyniadau cyfrifiad 2021 yn dangos bod nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd wedi parhau i dyfu gydag amcanestyniadau'n awgrymu bod 42,584 (11.6%) o boblogaeth y ddinas yn dweud eu bod yn siaradwyr Cymraeg yn 2021. Nod Strategaeth Ddwyieithog Caerdydd 2022-27 yw cefnogi twf parhaus yn nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r iaith mewn gwaith, addysg a lleoliadau cymdeithasol, a chreu amodau sy'n ffafriol i'r iaith ffynnu.

**6.** Mae'n ddyletswydd statudol o dan safon 145 i gynnwys targed yn Strategaeth Ddwyieithog Caerdydd 2022-27 i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd. Er mwyn i Gaerdydd chwarae ei rhan i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, bydd angen i ni weld cynnydd canrannol o 7.73% yn nifer y siaradwyr Cymraeg (3+ oed) yng Nghaerdydd rhwng 2022 a 2027. Mae hyn yn golygu cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd gan 3,342 rhwng 2022 (43,223) a 2027 (46,565). Mae’r targed hwn wedi ei gynnwys yn Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog.

**7.** Y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer y targed hwn oedd cymhwyso'r cynnydd canrannol blynyddol sydd ei angen yng Nghaerdydd i gefnogi’r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 (o'r 562,016 a adroddwyd yng Nghyfrifiad 2011). Mae hyn yn cyfateb i gynnydd blynyddol o 1.5% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd.

**8.** Yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd yn CSCA drafft Cyngor Caerdydd, bydd tua 3,518 o ddisgyblion yn mynd i addysg cyfrwng Cymraeg rhwng 2022 a 2027. Mae hyn yn uwch na'r cynnydd gofynnol a bennwyd gan Cymraeg 2050. Fodd bynnag, nid yw'r niferoedd sy'n mynd i addysg cyfrwng Cymraeg yn cyfateb i'r niferoedd sy'n parhau ac yn cwblhau addysg Gymraeg ac yn dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac felly mae'n rhaid bod yn ofalus gyda’r ffigurau hyn.

**9.** Yn ogystal â'r niferoedd sy'n mynd i addysg cyfrwng Cymraeg, mae siaradwyr Cymraeg yn mudo o ardaloedd eraill o Gymru yn sbardun demograffig pwysig. Fodd bynnag, mae ffynonellau data ar gyfer mudo o'r fath yn annibynadwy ond, fel amcangyfrif ceidwadol, rhagwelir y bydd hyn yn 500 y flwyddyn yn ychwanegol gan wneud cyfanswm o 2500 erbyn y flwyddyn 2027.

**10.** Fel y nodwyd uchod, mae'n anodd gwirio'r data ar nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n mudo i Gaerdydd ond rhagwelir y bydd 60-70% o’r cynnydd

gofynnol mewn siaradwyr Cymraeg yn cael ei gyflawni drwy addysg a dysgu cyfrwng Cymraeg a 30-40% drwy fewnfudiad.

**11.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth Cymraeg 2050 yn 2017 gyda’r nod o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 wedi mabwysiadu'r tair thema (a'u meysydd gwaith cysylltiedig) a gyflwynwyd gan Cymraeg 2050. Y tair thema yw:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 wedi'i halinio â gofynion Cymraeg 2050 ac mae'n cynnwys nifer o gamau gweithredu a thargedau i sicrhau y gall y Cyngor fodloni gofynion y strategaeth genedlaethol.

**12.** Gwnaeth y Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog gyntaf sefydlu Fforwm Caerdydd Ddwyieithog fel rhwydwaith partneriaeth o sefydliadau yng Nghaerdydd i gefnogi'r gwaith o gyflawni camau gweithredu a mentrau'r strategaeth. Bydd y Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 ddiwygiedig yn parhau i gael ei chyflwyno mewn partneriaeth â’r Fforwm Caerdydd Ddwyieithog sefydledig ac nid gan un sefydliad yn unig. Bydd aelodaeth y Fforwm yn cael ei datblygu a'i hymestyn ymhellach dros oes y strategaeth a bydd yn cyflwyno ffocws newydd ar weithio ar draws rhanbarth De-ddwyrain Cymru. Mae rhestr o bartneriaid presennol y Fforwm wedi'i chynnwys yn Atodiad II Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27.

**13.** Mae hybu a hwyluso'r Gymraeg yng Nghaerdydd yn broses ac ni fydd wedi’i chwblhau o fewn cyfnod 5 mlynedd y strategaeth ddiwygiedig. Sefydlodd y Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog gyntaf bartneriaethau drwy Fforwm Caerdydd Ddwyieithog ac mae wedi cyflawni ystod eang o gamau gweithredu a mentrau i gefnogi'r Gymraeg. Y weledigaeth ar gyfer y strategaeth ddiwygiedig hon yw symud oddi wrth weithredu gwasanaethau i raglen fwy uchelgeisiol o weithgarwch i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg a'i hybu o fewn holl gymunedau Caerdydd. Mae hefyd yn cynnwys ymrwymiadau i weithio gyda chydweithwyr awdurdodau lleol ar draws rhanbarth De-ddwyrain Cymru.

**14.** Datblygwyd Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog ochr yn ochr â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022-2032 Cyngor Caerdydd. Mae mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg yn rhan hanfodol o gyflawni nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd wedi gweld twf sylweddol dros y 30 mlynedd diwethaf ac mae mwy a mwy o deuluoedd am i'w plant gael mynediad i'w haddysg yn Gymraeg. Drwy ddatblygu'r ddwy strategaeth gyda'i gilydd, bu'n bosibl nodi camau gweithredu a mentrau i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol, cynnig cyfleoedd i rieni ymgysylltu â'r iaith, a datblygu ymhellach y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwy ffrwd. Mae'r ddwy strategaeth yn ategu ei gilydd a byddant yn cefnogi ymrwymiad y Cyngor i gyflawni'r nodau a ddisgrifir yn Cymraeg 2050.

## Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-32

**15.** Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Yn flaenorol, gweithredwyd y CSCAau dros gyfnod o dair blynedd. Fodd bynnag, yn dilyn cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, bydd CSCA y Cyngor yn berthnasol am gyfnod o 10 mlynedd rhwng 2022 a 2032. Mae'r CSCA yn darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio a darparu addysg cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg o fewn ardal yr Awdurdod Lleol.

**16.** Mae CSCA Caerdydd yn cwmpasu'r cyfnod 2022-2032. Mae'n cael ei ategu a'i lywio gan Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru ac fe'i datblygwyd ochr yn ochr â Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27.

**17.** Bydd ymrwymiadau i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg a ddisgrifir yn Cymraeg 2050 yn cael eu hategu gan ddarpariaeth y CSCA a darpariaeth addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae'r camau gweithredu a'r targedau a ddisgrifir yn y CSCA yn cefnogi Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 ac mae'r ddau yn cynnwys gweledigaethau a chamau gweithredu wedi'u halinio i hyrwyddo'r Gymraeg yng Nghaerdydd.

**18.** Mae cynllun gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 wedi'i alinio â CSCA 2022-32. Mae camau gweithredu a thargedau perthnasol yn y cynllun gweithredu wedi'u diwygio i adlewyrchu'r targedau a gyflwynwyd yn y CSCA ac ychwanegwyd colofn ychwanegol i gadarnhau'r canlyniadau CSCA a gefnogir gan y camau a'r targedau hynny.

**19.** Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 a CSCA 2022-32 yn rhannu'r weledigaeth i gefnogi nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Maent hefyd yn cefnogi datblygiad parhaus Caerdydd wirioneddol ddwyieithog lle mae addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael i bawb a lle mae'r Gymraeg yn cael ei diogelu a'i meithrin er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ei defnyddio a'i mwynhau.

## Ymgynghoriad

**20.** Cyflwynwyd arolwg ymgynghori mewnol i staff y Cyngor ym mis Medi 2021 ar Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 i holi eu barn ar Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27.

**21.** Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog i ben ar 15 Tachwedd 2021. Gofynnodd yr ymgynghoriad i ddinasyddion Caerdydd flaenoriaethu'r meysydd gwaith a nodwyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r tair prif thema a ddisgrifir uchod. Mae'r sylwadau, yr awgrymiadau a'r argymhellion a gafwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad wedi cael eu hystyried a'u hymgorffori yn Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 a'i chynllun gweithredu. Cynigir rhagor o wybodaeth am ganlyniadau'r ymgynghoriad isod.

**22.** Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 hefyd wedi bod yn destun ymgynghoriad helaeth â Fforwm Partneriaid Caerdydd Ddwyieithog, Gweithgor Aelodau Caerdydd Ddwyieithog, yr Undebau Llafur a Fforwm Polisi a Thîm Cydraddoldeb y Cyngor.

**23.** Rheolwyd yr ymgynghoriadau mewnol a chyhoeddus ar Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 gan Dîm Ymchwil Caerdydd, ar ran Caerdydd Ddwyieithog.

**24.** Mae Tîm Ymchwil Caerdydd wedi cyfuno'r sylwadau a gafwyd mewn perthynas â'r ymgynghoriadau mewnol a chyhoeddus ar Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 mewn adroddiadau. Maent wedi'u cynnwys fel **Atodiad III** ac **Atodiad IV** yn y drefn honno.

**25.** Dylid nodi y byddai rhai sylwadau a dderbyniwyd yn gofyn am newidiadau mewn deddfwriaeth - fel Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg – neu i'r Cyngor beidio â chydymffurfio â'i ddyletswyddau a'i gytundebau statudol i gefnogi strategaethau Llywodraeth Cymru, megis Cymraeg 2050. Mae newidiadau o'r math hwn y tu hwnt i gyfrifoldeb a chylch gwaith y Cyngor ac felly nid yw sylwadau a fyddai'n gofyn am newidiadau o'r fath wedi'u cynnwys yn adroddiadau'r ymgynghoriadau mewnol a chyhoeddus.

**Canlyniadau Ymgynghoriad Mewnol**

**26.** Cafwyd **543** o ymatebion i'r ymgynghoriad staff mewnol gydag **20.6%** o ymatebwyr yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg a **18.1%** o ymatebwyr yn nodi eu bod yn ddysgwyr Cymraeg. Mae hyn yn golygu bod gan **38.7%** o'r staff a ymatebodd ryw lefel o sgiliau Cymraeg. Yn ychwanegol, mae **37.9%** o ymatebwyr wedi derbyn hyfforddiant Cymraeg ac mae gan **41.7%** o ymatebwyr ddiddordeb mewn derbyn hyfforddiant Cymraeg.

**27.** Cafodd y blaenoriaethau o dan **Thema 1 Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg** eu graddio gan yr ymatebwyr fel a ganlyn:

1. **Y Blynyddoedd Cynnar**
2. **Addysg Statudol**
3. **Trosglwyddiad Iaith yn y Teulu**
4. **Gweithlu Addysg**
5. **Addysg Ôl-orfodol**

**28.** Cafodd y blaenoriaethau o dan **Thema 2 Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg** eu graddio gan yr ymatebwyr fel a ganlyn:

1. **Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg**
2. **Gwasanaethau**
3. **Y Gweithle**

**29.** Cafodd y blaenoriaethau o dan **Thema 3 Creu Amodau Ffafriol - Seilwaith a Chyd-destun** eu graddio gan yr ymatebwyr fel a ganlyn:

1. **Diwylliant a'r Cyfryngau**
2. **Cymuned a'r Economi**
3. **Caerdydd a’r Byd Ehangach**
4. **Cynllunio Ieithyddol**
5. **Seilwaith**
6. **Technoleg Ddigidol**
7. **Gwerthuso ac Ymchwil**

**30.** Mae adroddiad yr Ymgynghoriad Mewnol yn rhoi detholiad o'r sylwadau a gafwyd a lefel y flaenoriaeth ar gyfer y meysydd gwaith sy'n cefnogi'r tair Thema a gyflwynwyd yng nghynllun gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27. Mae'r cynllun gweithredu wedi'i ddiwygio o ganlyniad i'r sylwadau a gafwyd.

**Canlyniadau Ymgynghoriad Cyhoeddus**

**31.** Cafwyd cyfanswm o **464** o ymatebion o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus gyda thros draean o'r ymatebwyr **(35.5%)** yn cadarnhau eu bod yn siaradwyr Cymraeg. Cadarnhaodd **61.6%** o'r ymatebwyr a nododd eu bod yn siaradwyr Cymraeg eu bod yn defnyddio'r iaith bob dydd. Cadarnhaodd **22.3%** o ymatebwyr nad oeddent yn siarad Cymraeg eu bod yn dysgu'r iaith.

**32.** Cadarnhaodd **62.6%** o'r ymatebwyr fod ganddynt blant ac, o'r rhain, nododd **44.3%** fod eu plant yn derbyn neu wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

**33.** Cafodd y blaenoriaethau o dan **Thema 1 Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg** eu graddio gan yr ymatebwyr fel a ganlyn:

1. **Y Blynyddoedd Cynnar**
2. **Trosglwyddiad Iaith yn y Teulu**
3. **Addysg Statudol**
4. **Gweithlu Addysg**
5. **Addysg Ôl-orfodol**

**34.** Cafodd y blaenoriaethau o dan **Thema 2 Cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg** eu graddio gan yr ymatebwyr fel a ganlyn:

1. **Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg**
2. **Gwasanaethau**
3. **Y Gweithle**

**35.** Cafodd y blaenoriaethau o dan **Thema 3 Creu Amodau Ffafriol - Seilwaith a Chyd-destun** eu graddio gan yr ymatebwyr fel a ganlyn:

1. **Diwylliant a'r Cyfryngau**
2. **Cymuned a'r Economi**
3. **Gwerthuso ac Ymchwil**
4. **Cynllunio Ieithyddol**
5. **Caerdydd a’r Byd Ehangach**
6. **Technoleg Ddigidol**
7. **Seilwaith**

**36.** Mae adroddiad yr Ymgynghoriad Cyhoeddus yn rhoi detholiad o'r sylwadau a gafwyd a lefel y flaenoriaeth ar gyfer y meysydd gwaith sy'n cefnogi'r tair Thema a gyflwynwyd yng nghynllun gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27. Mae'r cynllun gweithredu wedi'i ddiwygio o ganlyniad i'r sylwadau a gafwyd.

**Gweithredu a Monitro**

**37.** Mae Safon 146 yn mynnu bod y Cyngor yn asesu i ba raddau y mae'r targedau a'r camau gweithredu yn y strategaeth wedi eu cyrraedd 5 mlynedd wedi cyhoeddi'r strategaeth. Bydd yr asesiad yn cynnwys y niferoedd diweddaraf o siaradwyr Cymraeg a'u hoedrannau a rhestr o weithgareddau y mae'r awdurdod wedi cytuno i'w trefnu neu eu hariannu yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae Safon 146 yn nodi:

**Bum mlynedd wedi cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid i chi -**
**(a) asesu i ba raddau y llwyddoch i ddilyn y strategaeth honno a chyrraedd y targed a osodwyd, a**
**(b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys y wybodaeth ganlynol -**
**(i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oed y siaradwyr hynny.**
**(ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.**

**38.** Gan fod cyflawni'r strategaeth yn seiliedig ar weithio mewn partneriaeth, mae'r holl bartneriaid a restrir yn **Atodiad II** o fewn Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 wedi cytuno i weithredu a monitro cynnydd yn erbyn y camau gweithredu perthnasol yn y cynllun gweithredu ar ran eu sefydliadau.

**39.** Caiff y camau a gyflwynir yng nghynllun gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 eu hadrodd a'u monitro mewn cyfarfodydd chwarterol o Fforwm Aelodau Caerdydd Ddwyieithog. Fel rhan o'r broses ymgynghori rhannwyd aelodau'r Fforwm yn dri is-grŵp i fynd i'r afael â thair thema graidd y Strategaeth. Bydd y model hwn yn parhau dros oes y Strategaeth i gyflawni mwy o arbenigedd mewn rheoli a chyflawni camau gweithredu a mentrau.

**40.** Bydd cyflawniad y Strategaeth hefyd yn cael ei fonitro (a'i gynnwys fel eitem gyson ar yr agenda) ar gyfer cyfarfodydd chwarterol Gweithgor Caerdydd Ddwyieithog.

**41.** Mae Gweithgor Caerdydd Ddwyieithog yn grŵp trawsbleidiol o Gynghorwyr Caerdydd ac mae iddo rôl arweiniol, ar y cyd â'n sefydliadau partner, yn datblygu Caerdydd wirioneddol ddwyieithog lle gall dinasyddion a staff Cyngor Caerdydd gael mynediad cyfartal at wasanaethau a chymorth yn y naill iaith neu'r llall.

**Asesiad o'r Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog gyntaf**

**42.** Darparwyd adroddiad yn asesu gweithrediad Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog gyntaf Cyngor Caerdydd (2017-22) gan Nico, cwmni ymgynghori allanol sy'n arbenigo mewn cyfieithu a pholisi Cymraeg. Mae'r adroddiad wedi'i gynnwys fel **Atodiad V**.

**43.** Yn *Cau'r Bwlch*, Adroddiad Sicrwydd 2019/20, mae Comisiynydd y Gymraeg yn nodi'r canlynol:

*Mae gan strategaethau 5 mlynedd botensial enfawr i wneud awdurdodau lleol yn asiantaethau hybu'r Gymraeg o fewn eu hardaloedd, gan gydlynu a gyrru ymdrechion mewn meysydd mor amrywiol ag addysg, economi, cynllunio, ieuenctid, twristiaeth, gofal ac ati. Ond prin yw'r enghreifftiau o fentrau newydd yn digwydd yn sgil y strategaethau, a phrin yw'r cyllid a'r adnoddau y mae sefydliadau wedi eu buddsoddi yn y gwaith.*

*Mae cyfle ar y gorwel i newid hyn, gyda gofyniad y sefydliadau i adolygu a llunio strategaethau newydd yn 2022. Nawr yw'r amser i ddechrau cynllunio a mesur effaith er mwyn sicrhau bod y strategaethau'n cael effaith wirioneddol ar sefyllfa'r Gymraeg yn gymunedol yn ystod y ddegawd hon.*

***(Adolygiad o'r Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017-22 (Nico) tud. 1)***

Mae'r Adroddiad Asesu ar Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017-22 yn ystyried y sefyllfa a fynegwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg uchod ac yn cynnig nifer o gasgliadau ac argymhellion:

***Safonau 145 a 146***
*I ymdrin â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau dan sylw, gwelwyd bod y Cyngor wedi bodloni safon 145 yn llawn drwy bennu targed o ran canran a nifer y siaradwyr yn yr ardal, ynghyd ag amlinellu yn y strategaeth sut y byddai'n anelu at gyrraedd y targed hwnnw ar ffurf cynllun gweithredu a thargedau.*

*Mae'r adolygiad hwn yn bodloni'r gofyniad yn safon 146 i asesu i ba raddau mae'r Cyngor wedi dilyn y strategaeth a chyrraedd y targed a bennwyd, ac yn ei dro, mae'r asesiad yn cynnig adborth defnyddiol ar gyfer y gwaith o lunio strategaeth 5 mlynedd ddiwygiedig ac uchelgeisiol i'w chyhoeddi maes o law.*

***Effaith y strategaeth yn gyffredinol***
*Fel y nodwyd uchod, nid yw data'r Cyfrifiad ar gael eto i fesur union graddau llwyddiant ymyrraeth strategol y Cyngor o ran niferoedd ac oedrannau siaradwyr Cymraeg yr ardal, ond mae'r arwyddion a welir o ffynonellau dibynadwy eraill yn awgrymu cynnydd sefydlog a graddol.*

*Fe fyddai'n anodd priodoli unrhyw gynnydd mewn niferoedd yn uniongyrchol i weithgareddau cymunedol y strategaeth, ond, fel mae dogfen gyngor y Comisiynydd ar asesu cyrhaeddiad yn ei nodi, mae hefyd yn anodd priodoli cynnydd mewn defnydd bob dydd i weithgareddau penodol. Felly anogir y*

*Cyngor i ystyried dogfen gyngor y Comisiynydd ar asesu cyrhaeddiad y strategaethau 5-mlynedd yng nghyd-destun ail darged Cymraeg 2050 i ddyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg, drwy bennu mesuriadau ansoddol a meintiol i olrhain effaith a llwyddiant gweithgareddau penodol. Mae'r adborth gan bartneriaid yn cynnig man cychwyn ardderchog ar gyfer hyn.*

***Statws yr iaith***
*Er mai'r safonau hybu sy'n llywio'r strategaeth 5 mlynedd, mae strategaeth Caerdydd Ddwyieithog wedi bod yn gyfle i'r Cyngor geisio ehangu ar ofynion statudol y safonau eraill sy'n berthnasol iddo o dan y Mesur fel y safonau llunio polisi a'r safonau gweithredol, er enghraifft ym maes sgiliau Cymraeg staff, polisi enwi strydoedd Caerdydd ac arweiniad a chanllawiau polisi ym maes datblygu. Mae'r rhain oll yn ymwneud â hyrwyddo* ***statws yr iaith*** *yn ogystal ac fe ddylid nodi hyn fel arfer da i'w efelychu. Mae'n bwysig i Gaerdydd Ddwyieithog barhau i chwilio am gyfleoedd i godi proffil a statws yr iaith yn y ddinas yn ogystal â'r gwaith o gynyddu nifer siaradwyr a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.*

***(Adolygiad o'r Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017-22 (Nico) tud. 31-32)***

*Fel y nodwyd yn yr adolygiad cyntaf, mae'n bwysig dathlu cryfderau Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog a dylid parhau i drafod gwersi a ddysgir a rhannu arferion da. Mae nifer o gyfleoedd yn codi i'r Cyngor ar drothwy gweithredu strategaeth hybu a CSCA newydd ynghyd â datblygiadau strategol eraill ar lefel y Cyngor a gyda phartneriaid.*

*Mae'r argymhellion isod yn seiliedig ar y cyd-destun newydd, cyfweliadau â'r partneriaid ac asesiad o'r cynnydd hyd yma, a'u bwriad yw cynnig her wrth gynllunio i'r dyfodol gyda Strategaeth 2022-2027:*

***Argymhelliad 1:***
***Data Cyfrifiad 2021*** *Dylid adolygu'r Strategaeth newydd yn dilyn cyhoeddi data'r Cyfrifiad ar y Gymraeg yn 2022/23 gan graffu'n feirniadol ar dargedau a'u haddasu yn ôl yr angen. Bydd angen bod yn barod i gydweithio â phartneriaid mewnol ac allanol i ymateb i her mewn unrhyw faes demograffig penodol a chynnig rhai targedau newydd.*

***Argymhelliad 2:***
***Plant a phobl ifanc*** *Gyda'r adolygiadau presennol sy'n digwydd ym maes gwasanaethau ieuenctid y Cyngor, ynghyd â datblygiadau Dinas sy'n Dda i Blant, mae cyfle i roi cynlluniau ar waith nawr i dyfu'r ddarpariaeth Gymraeg dros y 5-10 mlynedd nesaf. Dylai'r gwaith mapio bylchau y cyfeirir ati yn y CSCA drafft, (nod 1 Deilliant 5), arwain yn uniongyrchol at sicrhau buddsoddiad cymesur mewn gwasanaethau ac adnoddau Cymraeg i gyd-fynd â gweledigaeth y CSCA a'r Strategaeth Hybu newydd.*

***Argymhelliad 3:***
***Fforwm Caerdydd Ddwyieithog*** *Cryfder y Fforwm ydy'r cyfathrebu a'r cyswllt â phartneriaid/rhanddeiliaid. Angen ystyried y ffordd orau o gynnwys:*

*(i)* *swyddogion o’r Cyngor (Addysg, Dinas sy’n Dda i Blant a Gwasanaethau Ieuenctid fel enghreifftiau penodol) i rannu gwybodaeth ac arferion da a sicrhau cyd-ddealltwriaeth o nodau;*

*(ii)* *partneriaid ehangach eto ee. o faes busnes ac economi.*

***Argymhelliad 4:***
***Mesur effaith*** *Er mwyn gallu mesur cynnydd y Strategaeth yn effeithiol erbyn 2027, dylid ystyried cyngor Comisiynydd y Gymraeg ar asesu cyrhaeddiad y strategaeth hybu ochr yn ochr â’r enghreifftiau ymarferol o gasglu tystiolaeth a roddwyd gan bartneriaid. Dylid penderfynu ar dystiolaeth a allai gyfleu effaith ymyriadau, o ran newid mewn ymddygiad / agwedd / defnydd o’r Gymraeg yn ogystal â beth yw llwyddiant mewn termau meintiol.*

***Argymhelliad 5:***
***CSCA 2022-31 (nodau deilliant 1 a 5)*** *Yn dilyn y broses ymgynghori ar y strategaeth hybu a’r CSCA, dylid sicrhau cyswllt cryfach rhwng y ddwy strategaeth fel bod modd croesgyfeirio’n hawdd ar draws y nodau strategol wrth iddynt droi’n gamau gweithredu ymarferol (Deilliant 1 a 5 y CSCA yn benodol).*

***Argymhelliad 6:***
***Caerdydd Ddwyieithog*** *Dylai’r Cyngor ehangu adnoddau tîm Caerdydd Ddwyieithog. Gallai cyngor polisi ac arbenigedd gan y tîm ychwanegu gwerth, darparu mewnbwn gwerthfawr a sicrwydd cydymffurfiaeth wrth i adrannau eraill gynllunio eu gwasanaethau ac alinio nodau strategol y Cyngor.*

***(Adolygiad o’r Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017-22 (Nico) tud. 32-33)***

**44.** Mae'r argymhellion a dderbyniwyd gan Nico yn eu hasesiad o Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017-22 wedi cael eu hystyried a'u gweithredu. Ceir manylion isod.

**45.** Mae **Argymhelliad 1** (diwygio targedau pan dderbynnir data Cyfrifiad 2021) wedi'i gynnwys fel cam ychwanegol ar gyfer Themâu 1, 2 a 3 yng nghynllun gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27.

**46.** Mae camau ychwanegol **Argymhelliad 2** (mapio gwasanaethau plant ac ieuenctid cyfrwng Cymraeg) wedi'u cynnwys o dan Thema 2 yng nghynllun gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27, gan gynnwys sefydlu Fforwm Ieuenctid Caerdydd Ddwyieithog a cynnig cyllid digwyddiadau i’w gefnogi.

**47.** Mae **Argymhelliad 3** (ehangu aelodaeth Fforwm Caerdydd Ddwyieithog i gynnwys swyddogion perthnasol y Cyngor a phartneriaid sefydliadol ychwanegol) wedi'i gynnwys fel cam ychwanegol o dan Thema 3 yng nghynllun gweithredu strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27.

**48.** Mae **Argymhelliad 4** (mesur effaith Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27) wedi'i gynnwys fel cam ychwanegol o dan Thema 3 yng nghynllun gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27.

**49.** **Argymhelliad 5** (cryfhau'r berthynas rhwng Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 a CSCA 2022-32) - cyflwynir rhagor o fanylion am yr aliniad rhwng y ddwy strategaeth yn yr **adran Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-27** uchod (adrannau **15-20**).

**50.** **Argymhelliad 6** (ehangu adnoddau Caerdydd Ddwyieithog gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygiad polisi) – mae cyfleoedd ariannu'n cael eu harchwilio ar hyn o bryd.

**Cyfleoedd Ariannu Posibl**

**51.** Derbyniwyd cytundeb mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru i ariannu swydd Swyddog Hybu Addysg Gymraeg a ddisgrifir yng nghynllun gweithredu'r strategaeth.

**52.** Bydd cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i dîm Caerdydd Ddwyieithog yn cefnogi datblygiad darpariaeth cyngor polisi, yn ogystal ag ehangu gwasanaethau cyfieithu, ar gyfer partneriaid sector cyhoeddus yng Nghymru.

**Rhesymau dros yr Argymhellion**

**53.** Mae Safon 145 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn mynnu bod y Cyngor yn cynhyrchu a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut y byddwn yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 yw'r diwygiad cyntaf o'r strategaeth hon ac, yn unol â'r Safonau, rhaid cytuno arni a'i chyhoeddi erbyn dechrau blwyddyn ariannol 2022-23.

**54.** Mae Safon 146 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor asesu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi dilyn y strategaeth 5 mlynedd a chyrraedd y targed a osodwyd i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae Adolygiad Annibynnol Nico o Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017-2022 yn darparu'r asesiad hwnnw i fodloni gofynion Safon 146 a chaiff hwn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn dilyn cymeradwyaeth.

**<u>Goblygiadau Cyfreithiol</u>**

**55.** Mae'r adroddiad yn argymell cyfeirio'r strategaeth at y Cyngor llawn i'w gymeradwyo. Mae'r goblygiadau cyfreithiol safonol o ran cymeradwyo strategaethau wedi'u nodi isod.

**56.** Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg wrth wneud unrhyw benderfyniadau polisi ac ystyried yr effaith ar y Gymraeg ac mae'r adroddiad yn ymdrin â'r ymrwymiadau hyn.

## Dyletswydd Cydraddoldeb

**57.** Wrth ystyried y mater hwn, rhaid i'r Cyngor barchu ei ddyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus o dan Deddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sy'n benodol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru). Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r angen i:

**(1)** dileu gwahaniaethu anghyfreithlon;
**(2)** datblygu cyfle cyfartal; a
**(3)** meithrin perthnasau da ar sail nodweddion gwarchodedig

Y nodweddion gwarchodedig yw: oed, ailbennu rhywedd, rhyw, hil – gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred.

Wrth wneud penderfyniadau strategol, mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol hefyd i roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol ('y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol' a osodir o dan adran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010). Wrth ystyried hyn, rhaid i'r Cyngor ystyried y canllawiau statudol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (WG42004 Cymru Fwy Cyfartal, Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010 (llyw.cymru)) a rhaid iddo allu dangos sut y mae wedi cyflawni ei ddyletswydd.

Nod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw nodi goblygiadau cydraddoldeb y penderfyniad arfaethedig, gan gynnwys anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol, a dylid rhoi sylw dyledus i ganlyniadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") yn gosod 'dyletswydd lles' ar gyrff cyhoeddus â'r nod o geisio cyflawni 7 nod lles cenedlaethol Cymru – Cymru sy'n ffyniannus, gwydn, iachach, fwy cyfartal, sydd â chymunedau cydlynol, diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, ac sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Wrth arfer ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf, mae'r Cyngor wedi gosod a chyhoeddi amcanion lles sydd wedi'u dylunio i wneud y gorau o'i gyfraniad i gyflawni'r nodau lles cenedlaethol. Nodir yr amcanion lles yng Nghynllun Corfforaethol Caerdydd ar gyfer 2021-24. Wrth arfer ei swyddogaethau, mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd pob cam rhesymol i gyflawni ei amcanion lles. Golyga hyn y dylai'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ystyried sut y bydd y penderfyniad arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion lles a rhaid iddynt fod yn fodlon bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae'r ddyletswydd lles hefyd yn gofyn i'r Cyngor weithredu yn unol â'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy'. Mae'r egwyddor yn mynnu bod y Cyngor yn gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol

yn cael eu bodloni heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion eu hunain. Yn syml, golyga hyn fod gofyn i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor ystyried effaith eu penderfyniadau ar y bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Cyngor:

- Edrych i'r hirdymor
- Canolbwyntio ar atal trwy ddeall gwreiddiau problemau
- Cyflawni ymagwedd integredig i gyflawni'r 7 nod lles cenedlaethol
- Gweithio mewn cydweithrediad ag eraill i ddod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy
- Cynnwys pobl o bob rhan o'r gymuned mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt

Rhaid i'r person sy'n gwneud penderfyniad fod yn hyderus bod y penderfyniad arfaethedig yn unol â'r egwyddorion uchod; a rhaid rhoi ystyriaeth fanwl i'r Canllawiau Statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, y mae modd eu gweld drwy'r ddolen isod: https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/statutory-guidance/?skip=1&lang=cy

## Goblygiadau Ariannol

**58.** Mae'r adroddiad hwn yn gosod Strategaeth 5 mlynedd y Gymraeg a'r cynllun gweithredu ategol. Lle byddai angen cymryd camau gweithredu i gyflawni amcanion sydd wedi'u cynnwys y Strategaeth, byddai angen talu unrhyw gostau cysylltiedig o ddyraniad yr adnoddau cyllidebol presennol neu drwy ffynonellau allanol. Lle caiff ffynonellau cyllido allanol eu nodi yna dylid rhoi ystyriaeth i unrhyw delerau ac amodau sydd ynghlwm wrth yr arian a'r cyngor hwnnw a geisiwyd.

## Goblygiadau AD

**59.** Mae gweithredu'r strategaeth yn dibynnu ar nifer o strategaethau eraill gan gynnwys Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA) 2022-2032. Nodwyd nifer o oblygiadau AD yn adroddiad y Cabinet (14 Hydref 2021) ynghylch y cynllun hwn a fyddai'n effeithio ar gyflawni Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 yn gyffredinol.

**60.** Bydd hyfforddiant Cymraeg yn parhau i gael ei gynnig i weithwyr o fewn y Cyngor a'i ddatblygu yn ôl y gofyn. Bydd angen asesu unrhyw ofynion adnoddau sydd eu hangen i ddatblygu hyn ar y pryd a bydd y datblygiad yn dibynnu ar hyn.

**61.** Bydd gwasanaethau yn y Cyngor yn parhau i gael eu hannog i adolygu eu swyddi Cymraeg hanfodol a dymunol a bydd data'n cael ei fonitro fel rhan o adroddiad blynyddol y Cyngor.

**Goblygiadau Eiddo**

**62.** Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol o ran eiddo yn deillio o'r argymhellion yr adroddiad hwn.

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

**63.** Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau ac yn dod i'r casgliad y byddai Caerdydd Ddwyieithog: Strategaeth 5 Mlynedd y Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg (**Atodiad II**).

**CYNNIG CABINET**

Argymhellir bod y Cyngor

**1)** yn cymeradwyo Cydnabod Caerdydd Ddwyieithog: Strategaeth 5 Mlynedd y Gymraeg 2017-2022 (**Atodiad I**)

**2)** Nodi cynnwys yr Adolygiad Annibynnol o Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017-2022 **(Atodiad V).**

Y Cabinet
24 February 2022

*Atodir yr atodiadau canlynol:*

| | |
|---|---|
| Atodiad I | Caerdydd Ddwyieithog: Strategaeth 5 Mlynedd y Gymraeg 2022-27 |
| Atodiad II | Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb |
| Atodiad III | Adroddiad yr Ymgynghoriad Mewnol gan Dîm Ymchwil Caerdydd |
| Atodiad III | Adroddiad yr Ymgynghoriad Allanol gan Dîm Ymchwil Caerdydd |
| Atodiad V | Adolygiad o Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017-2022 (Nico Cyf) |